# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 28 Tachwedd 2017

Amser: 09.29 - 10.13

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Jayne Bryant AC (Cadeirydd)<br>Gareth Bennett AC<br>Paul Davies AC<br>Llyr Gruffydd AC |
| Comisiynydd Safonau: | Syr Roderick Evans QC, Comisiynydd Safonau |
| Staff y Pwyllgor: | Meriel Singleton (Ail Glerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Enrico Carpanini (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Jonathan Thomas |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Nodwyd y papur.

### 2.1 Adroddiad Blynyddol y Grwpiau Trawsbleidiol: Gohebiaeth gan y Llywydd (14 Tachwedd 2017)

## 3 Diwygio'r Cynulliad: Trafod y llythyr drafft

3.1 Ystyriodd yr Aelodau y llythyr drafft a chytuno ar ei gynnwys.

## 4 Y Cod Ymddygiad – Adolygu

4.1 Ystyriodd yr Aelodau y cais i weithio gyda Chomisiwn y Cynulliad i ddatblygu Polisi Parch ac Urddas, ynghyd ag adolygu'r cosbau sydd ar gael os torrir y Cod Ymddygiad.

4.2 Cytunodd y Pwyllgor i:

- Gynnal ymgynghoriad ysgrifenedig i ofyn barn am y broses yn gyffredinol, i holi a oes unrhyw resymau pam nad yw pobl yn gwneud cwynion ac i holi a oes unrhyw rannau o'r Cod y gellid eu gwneud yn fwy eglur. Cytunodd yr Aelodau hefyd i ystyried a ddylid cynnal unrhyw sesiynau tystiolaeth lafar ar ôl cael ymatebion ysgrifenedig;
- Datblygu strategaeth gyfathrebu i hyrwyddo gwaith y Pwyllgor a'r Comisiynydd Safonau; a
- Gofyn i Glerc y Pwyllgor wneud ymholiadau gyda Llywodraeth Cymru, ynghylch a oes Aelod etholedig neu uwch swyddog yn bresennol mewn unrhyw gyfarfodydd Pwyllgor perthnasol i drafod Cod y Gweinidogion a sut y gall y Cod ategu'r gwaith a wneir i ddatblygu'r Polisi Parch ac Urddas.

**Nodyn gan Jayne Bryant AC, Cadeirydd y Pwyllgor**

Esgusododd Jayne Bryant ei hun ar gyfer Eitem 5, sef yr eitem ar yr Adroddiad gan y Comisiynydd Safonau yn unol â Rheol Sefydlog 22.2(1). Roedd hyn oherwydd bod y gŵyn a gyflwynwyd ar ran Grŵp Llafur y Cynulliad yn ei chynnwys hi.

Paul Davies AC, oedd y Cadeirydd ar gyfer Eitem 5 yn dilyn cytundeb y Pwyllgor ar 15 Tachwedd 2016, ei fod ef yn cael ei ethol fel Cadeirydd dros dro.

Gadawodd Syr Roderick Evans, y Comisiynydd Safonau, y cyfarfod hefyd ar ôl Eitem 4.

## 5 Adroddiad gan y Comisiynydd Safonau yn unol â Rheol Sefydlog 22.2(1)

5.1 Cytunodd y Pwyllgor i wahodd Syr Roderick Evans, y Comisiynydd Safonau i fod yn bresennol yn y cyfarfod tra'r ystyriwyd yr eitem hon.

5.2 Ystyriodd yr Aelodau'r adroddiad gan y Comisiynydd Safonau yn unol â Rheol Sefydlog 22.1(i)

5.3 Nododd yr Aelodau fod yr Aelod dan sylw wedi datgan y darperir tystiolaeth ysgrifenedig i'w hystyried ganddynt, a bod yr Aelod am wneud sylwadau ar lafar. Bydd y Clercod yn cysylltu â'r Aelod ac yn cynnig nifer o ddyddiadau ar gyfer y gwrandawiad.